**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Mehefin 2024

Annwyl Buffy,

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 23 Ebrill ac am y cwestiynau dilynol a ddaeth i law ar 10 Mai.

Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am fynd ati i ymgysylltu'n eang i ddwyn ynghyd wybodaeth feirniadol sy'n craffu ar y diwygiadau addysg yng Nghymru, ac yn eu herio. Dylwn i gydnabod bod yr ymchwil a'r dystiolaeth helaeth a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2023 eisoes wedi llywio ein gwaith hyd yma, ac mae hynny'n gyson â chanfyddiadau'r pwyllgor, a'r ddeiseb ar y cod ADY.

Roedd y sesiwn dystiolaeth ar 8 Mai yn gyfle cynnar i rannu fy sylwadau ar y cynnydd mewn perthynas â'n diwygiadau addysg a'm hymrwymiad i wella'r broses o weithredu'r system ADY.

Ymatebais hefyd i’r ddadl ar 'Ddeiseb P-06-1392 - Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021' gan nodi fy mlaenoriaethau uniongyrchol, ac rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau yn Atodiad A.

Rwy'n angerddol iawn am gyflawni amcanion ar ran pob dysgwr, ac rwyf wedi ymrwymo i gymryd camau i wella'r diwygiadau i'r system addysg. Byddaf yn gweithio ar y cyd â'r holl bartneriaid i wneud hyn.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A: Ymatebion i lythyr dyddiedig 10 Mai**

## Cyffredinol

***Cwestiwn 1. O ran sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch a yw CDU yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o awdurdodau lleol, yn unol â disgwyliadau'r Cod ADY, sydd wedi cyhoeddi eu set o egwyddorion, gan roi'r meini prawf ar sut byddant yn gwneud penderfyniadau o'r fath?***

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyfarfod â phob awdurdod lleol ledled Cymru i fonitro'r broses weithredu a deall sut maen nhw'n gweithredu yn unol â'r Ddeddf ADY. Mae rhan o'r drafodaeth honno'n cynnwys ymchwilio i'r ffordd y mae'r awdurdodau lleol yn dirprwyo ac yn cynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Mae ein swyddogion wedi gofyn i'r awdurdodau lleol am gopi o'u set o egwyddorion sefydledig sydd wedi'u cyhoeddi, a'r URL (cyfeiriad y dudalen ar y we). Disgwylir i'r rhain ddod i law erbyn diwedd mis Mehefin.

## Data

***Cwestiwn 2: Beth yw'r llinellau amser sy'n gysylltiedig â'r gwaith ar ddata y gwnaethoch gyfeirio atynt yn ystod y cyfarfod? Yn benodol, erbyn pryd yr ydych yn gobeithio y bydd gennych y data hynny yr ydych o'r farn bod angen iddynt gael eu casglu ond sydd ddim ar hyn o bryd, ac erbyn pryd yr ydych yn gobeithio y byddant ar gael i gyfoethogi'r broses o weithredu'r system ADY?***

Mae swyddogion ar hyn o bryd yn monitro data ADY a gesglir drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i ddeall y cynnydd, ac yn rhannu'r data â phartneriaid. Mae'r data'n dangos statws disgyblion, tueddiadau wrth i ddysgwyr symud o'r system AAA i'r system ADY, newidiadau yn nifer a chyfrannau'r system AAA, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAP), Gweithredu gan yr Ysgol (SA), a'r cynnydd dilynol yn nifer y disgyblion a nodwyd fel rhai sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Maent hefyd yn darparu dadansoddiad o dueddiadau yn ôl ardal yr awdurdod lleol. Mae data ar bresenoldeb dysgwyr hefyd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth fwy amserol, y gellir eu cael o systemau gwybodaeth reoli ysgolion.

Gwnaed rhai diweddariadau i gasgliad CYBLD i adlewyrchu cyflwyno'r system ADY cyn ei gweithredu. Er enghraifft, gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Ni wnaed newidiadau ehangach i gynnal parhad data a gwybodaeth yn ystod y cyfnod pontio.

Mae ffrwd waith ddata yn cymryd camau i sicrhau bod data ar gael i fonitro ac asesu effaith y system ADY yn effeithiol. Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys nifer o gamau er mwyn:

- Deall data cyfredol, adolygu bylchau a nodi newidiadau sy'n ofynnol i wella'r broses o gasglu data a sicrhau'r data cywir sydd ar gael ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Addysg, Iechyd, Ôl-16 a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a nodi'r amserlen ar gyfer gwaith parhaus ddiwedd yr Hydref.
- Diffinio ac asesu effaith unrhyw newidiadau pellach i CYBLD i gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r system ADY a'i goruchwyliaeth, ar ôl ei gweithredu.

**Addysg a hyfforddiant ôl-16**

***Cwestiwn 3: Y sefyllfa gyffredinol yw bod gan bobl ifanc hawl i ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant ôl-16 oni bai bod 'anghenion rhesymol am fwy'. Fodd bynnag, mae NatSpec, sefydliad ymbarél darparwyr addysg bellach arbenigol, yn nodi bod llawer o achosion lle mae pobl ifanc ag ADY yn cael eu hamddifadu o gyllid i dreulio mwy na dwy flynedd mewn addysg bellach neu hyfforddiant. Beth mae hyn yn ei ddweud ynghylch a yw'r system ADY newydd yn system 0-25 oed o ddifri fel y dywedwyd ers y dechrau?***

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET) yn creu un system ddeddfwriaethol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY rhwng 0 a 25 oed sy'n cwmpasu'r blynyddoedd cynnar, yr oedran ysgol gorfodol ac addysg bellach. Nid yw'r Ddeddf ALNET yn rhoi hawl awtomatig i bob person ifanc ag ADY gael addysg barhaus hyd at 25 oed. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol, efallai y bydd rhai pobl ifanc yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth tan eu bod yn 25 oed, os oes ganddynt angen rhesymol am addysg a/neu hyfforddiant.

I nifer fach o bobl ifanc na ellir diwallu eu hanghenion mewn addysg bellach brif ffrwd, gellir penderfynu bod angen darpariaeth amgen arnynt i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o bosibl. O dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau flaenorol a'r Ddeddf ALNET newydd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynychu darpariaeth ôl-16 am ddwy flynedd, er y gallant gael mynediad at ddarpariaeth am gyfnod byrrach neu hirach. Yn achos cyfnodau hirach, rhaid bod tystiolaeth o resymau eithriadol sy'n ymwneud â gallu'r person ifanc i ddysgu.

O ran sefydliadau addysg bellach y brif ffrwd, nid oes cyfyngiad ar y cyfnod pan all dysgwr fod wedi'i gofrestru ar gyfer unrhyw ddarpariaeth. Bydd y coleg yn gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â'r person ifanc a'i rieni/gwarcheidwaid ynghylch cyrchfan y dysgwr, gan weithio i sicrhau'r ddarpariaeth gywir sy'n gweddu'n union i'r dysgwr hwnnw.

**Cyllid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol**

***Cwestiwn 4: A allech egluro faint sydd wedi cael ei wario ar gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY newydd hyd yma (cyn 2024-25)? (Mae eich papur ysgrifenedig yn nodi i £62 miliwn o refeniw a £40 miliwn o gyfalaf gael eu gwario rhwng 2020 a 2024.) Roedd eich papur hefyd yn nodi i £56 miliwn gael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith gweithredu yn 2024-25. Pam mae'r swm sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2024-25 yn ymddangos yn sylweddol uwch y flwyddyn na'r ffigur cronnol dros y cyfnod o dair neu bedair blynedd rhwng 2020 a 2024? A yw'r ffigurau'n gymharol ynteu a yw'r ffigur ar gyfer 2024-25 yn cynnwys cyllidebau ADY eraill, megis ôl-16, sy'n absennol o'r ffigur ar gyfer 2020 i 2024?***

Caiff cyllid ar gyfer ADY ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn bennaf. Mae hwnnw'n gyllid heb ei neilltuo i'r awdurdodau lleol.

Mae cyllid sy'n ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i roi at nifer o ddibenion i ategu'r seilwaith, i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu, neu i gynyddu'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi dysgwyr ADY.

Nodir crynodeb isod i ddangos dadansoddiad o'r buddsoddiad sy'n ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw ers 2020 ar gyfer addysg ac addysg a hyfforddiant ôl-16.

- Gweithredu'r system ADY – mae tua £60 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn gweithredu'r system ADY. Mae hyn wedi cynyddu'r adnoddau mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan i sefydlu addysg gynhwysol.

- Darpariaeth ADY – mae bron i £51 miliwn wedi'i ddyrannu i'r awdurdodau lleol ac yn uniongyrchol i ysgolion ac ysgolion arbennig i hybu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY, i gydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar ddysgwyr ag ADY.

- Cyllid cyfalaf ADY – mae £60 miliwn ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i awdurdodau lleol wella neu greu mannau a chyfleusterau cynhwysol i gefnogi dysgwyr ag ADY. (Rhan o'r cyllid hwnnw yw'r £20 miliwn sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2024-25). Mae hyn yn ychwanegol at raglen gyfalaf Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

- Cymorth ADY i'r sector addysg bellach – mae cyllideb refeniw o fwy na £150m hefyd wedi'i dyrannu i gefnogi ADY yn y sector addysg bellach ôl-16 trwy leoliadau arbenigol ôl-16 a chyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol. Yn ogystal, dyrannwyd £18 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd i'r llwybrau sgiliau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, cadarnheir y ffigur hwn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd.

Isod rwy'n egluro rhai o'r gwerthoedd y cyfeiriwyd atynt yn y papur tystiolaeth.

- Roedd y gyllideb refeniw o £62 miliwn yn gyfuniad o gyllid ar gyfer gweithredu systemau a chyllido'r ddarpariaeth ddysgu a ddyrannwyd i'r awdurdodau lleol drwy Grant Addysg yr Awdurdodau Lleol rhwng 2020-21 a 2022-23. Mae'r ffigur hwn yn codi i £107miliwn, rhwng 2020-21 a 2024-25, gan gynnwys y blynyddoedd hynny (Grant Addysg yr Awdurdod Lleol yn unig, heb gynnwys cyllid i gefnogi'r sector addysg bellach).

- Dyrannwyd £40 miliwn o gyfalaf i Awdurdodau Lleol yn 2022-23 a 2023-24, ond ni chafodd cyllid cyfalaf ei ddyrannu yn y blynyddoedd cyn hynny, ac mae £20 miliwn ychwanegol bellach wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2024-25, gan godi'r cyfanswm i £60m.

- £56.3 miliwn oedd y gyllideb a ddiogelwyd ar gyfer buddsoddiad i weithredu'r system ADY a darpariaeth ADY yn 2024-25.

Mae hyn yn cynnwys:

- £12.9 miliwn ar gyfer gweithredu'r system ADY drwy Grant Addysg yr Awdurdodau Lleol. Ac mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw yn mynd yn uniongyrchol i leoliadau addysg i gynyddu'r gallu i symud dysgwyr o'r system AAA i'r system ADY a datblygu strategaethau ysgol gyfan i gefnogi dysgwyr.
- £9.1 miliwn ar gyfer darpariaeth ADY drwy Grant Addysg yr Awdurdod Lleol. Mae'r cyllid hwnnw'n mynd i awdurdodau lleol i fodloni'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth o ganlyniad i effaith y pandemig.
- £0.7 miliwn i gefnogi Sefydliadau Addysg Bellach.
- £13.881 miliwn, sef cyfanswm y gyllideb sydd wedi'i ddyrannu i ddarparu lleoliadau ôl-16 arbenigol.

- £16.871 miliwn a ddyrannwyd i'r gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd angen cymorth yn y sector addysg bellach.
- £2.9 miliwn ar gyfer costau rhaglenni ADY.

**Gweithio gyda chyrff iechyd**

***Cwestiwn 5: A fyddwch cystal â chadarnhau a yw pob un o'r pedwar SACDA sydd mewn swydd yn gwasanaethu byrddau iechyd unigol (yn hytrach na chael eu rhannu ar draws y saith bwrdd iechyd)? Os felly, a ydych yn fodlon bod y tri bwrdd iechyd sydd heb benodi SACDA yn cydymffurfio ag adran 61 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?***

Mae pum bwrdd iechyd wedi penderfynu penodi ar y cyd; un swydd ar gyfer: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a swydd arall yn cwmpasu tri bwrdd iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys.

Yn yr achosion hynny, mae'r ddau SACDA wedi neilltuo amser penodedig i'r byrddau iechyd y maent yn eu gwasanaethu. I ryw raddau, mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r strwythurau gwahanol sydd ar waith, ac yn golygu bod modd datblygu dulliau gweithredu rhanbarthol cyson. Mae hyn yn cael ei groesawu gan y sector.

Rwy'n fodlon bod pob bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n gyfreithiol â'u dyletswydd o dan Adran 61 o Ddeddf ALNET. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau darpariaeth lawn ar draws pob Bwrdd Iechyd.

Rwyf wedi cyfarfod â'r pedwar SACDA, ac mae eu rôl eisoes yn gwella'r cydweithio strategol rhwng y sectorau iechyd ac addysg. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn cydweithrediad rhwng y SACDA. Mae hyn wedi galluogi datblygiadau cychwynnol wrth sefydlu dulliau cenedlaethol ar y cyd i fynd i'r afael â materion penodol. Ac rydym yn gweithio gyda'r pedwar SACDA i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd i fonitro cydymffurfiaeth y Byrddau Iechyd Lleol â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf ALNET.

Mae gwaith ein swyddogion yn arwain Gweithgor Cydweithio Amlasiantaethol ar gyfer ADY yn mynd i fod yn allweddol i wella'r cydweithio rhwng y sectorau iechyd ac addysg o dan y system ADY ac i gytuno ar ddulliau newydd, arloesol o ymdrin â themâu cyffredin sy'n deillio o weithredu'r system ADY.

**Y Cwricwlwm i Gymru**

***Cwestiwn 6: Mae'n ymddangos mai cynnydd ac asesu yw'r agwedd ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru sy'n peri'r anhawster mwyaf i ysgolion o hyd. Pa mor ymwybodol ydych chi o hynny ac a ydych chi'n ystyried darparu arweiniad manylach fel mae Estyn wedi awgrymu y gellid bod angen ei wneud yn achos rhai ysgolion, er gwaethaf yr hyn a ddarparwyd yn barod?***

Rydym yn gwybod bod heriau'n parhau mewn perthynas â'r agwedd honno ar weithredu'r Cwricwlwm. Mae ymchwil a gweithio ar y cyd ag ysgolion, gan gynnwys drwy ein hymchwil a'n gwerthusiad i ddeall profiadau cynnar o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal ag Adroddiadau Blynyddol Estyn, wedi ein helpu i ddeall sut mae'r agwedd honno ar weithredu'r Cwricwlwm yn sefydlogi mewn ysgolion, gan gynnwys beth sy'n gweithio'n dda a beth yw'r heriau. Bydd Estyn hefyd yn cyhoeddi adroddiad thematig ar y cysylltiad rhwng

pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws ysgolion, a fydd yn llywio ein cymorth ymhellach.

Rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddeunyddiau ategol a gweithdai datblygu proffesiynol ar Hwb ar gynnydd ac asesu – gan gynnwys canllawiau i ysgolion ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a datblygu trefniadau asesu. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'n partneriaid drwy brosiect Camau i'r Dyfodol i gefnogi dealltwriaeth genedlaethol gyffredin o gynnydd. Ym mis Medi 2023, gwnaethom gyhoeddi deunyddiau ategol yn seiliedig ar y gwaith hwn, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r proffesiwn i sicrhau bod gwella dealltwriaeth o gynnydd yn gwbl hygyrch i bawb.

Yr hyn sy'n amlwg yw pan fo cynnydd ac asesu yn cael eu gweithredu'n dda o dan y Cwricwlwm i Gymru, mae safonau'r ysgol a'r dysgwyr yn codi.  Mae cynllunio ar gyfer cynnydd yn helpu i ddatblygu dysgu sy'n fwy pwrpasol, yn fwy deniadol ac yn fwy trylwyr. Fodd bynnag, fel y nodais yn ystod cyfarfod y Pwyllgor mewn perthynas â'r Cwricwlwm yn gyffredinol, mae'n amlwg bod angen mwy o gymorth ar lawer o ysgolion yn y maes hwn, er mwyn iddynt fod yn hyderus yn hyn o beth.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ym mis Gorffennaf ar ddiwygio'r cwricwlwm, ac fel rhan o hynny byddaf yn amlinellu ystod o gamau i roi mwy o sgaffaldwaith a manylion i ysgolion i gefnogi cynnydd ac asesu. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag ymarferwyr i ddarparu manylion mor glir â phosibl ynghylch beth yn union yw cynnydd, yn ogystal â chynnwys enghreifftiol o'r cwricwlwm, a thempledi i gefnogi gwaith cynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu ysgolion ac athrawon.

Ond, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod unrhyw fanylion ychwanegol ar gyfer ysgolion yn iawn. Gwyddom o awdurdodaethau eraill y gall ychwanegu rhagor o fanylion at y cwricwlwm achosi problemau, yn enwedig os yw'n drysu neu'n gorlethu athrawon. Fel sy'n wir am ein holl gymorth ar gyfer y cwricwlwm, mae'n bwysig bod sail gyffredin o ran cymorth i'r ysgolion sydd ei angen a'r disgwyliadau sydd arnynt, heb gyfyngu ar uchelgeisiau a chreadigrwydd ysgolion.  Mae angen i unrhyw sgaffaldwaith fod yn syml, yn glir ac yn unol â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.